

Effeithiau Dyfarniadau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yr adroddwyd amdanynt trwy Researchfish Mawrth 2021

(Roedd y ffenestr ddiweddaraf ar gyfer adrodd rhwng 1 Chwefror ac 11 Mawrth 2021)

Cyflwyniad

Bob blwyddyn, mae ymchwilwyr yng Nghymru sy'n gweithio ar brosiectau ymchwil y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n eu hariannu'n anfon adroddiad atom trwy Researchfish i ddweud wrthym am allbynnau, deilliannau ac effeithiau eu hymchwil. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer:

- Cryfhau ein sylfaen dystiolaeth
- Atebolrwydd
- Pledio achos buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil
- Darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol
- Gwerthuso cynnydd

Roedd y ffenestr ddiweddaraf ar gyfer adrodd rhwng 1 Chwefror ac 11 Mawrth 2021. Mae'r data isod yn ddata cronol o'r holl ffenestri adrodd ers 2012.


Nifer ac ystod yr effeithiau yr adroddwyd amdanynt

Ers 2012, adroddwyd am 2,067 o allbynnau ac effeithiau o 221 o ddyfarniadau – 9.4 fesul dyfarniad ar gyfartaledd.

>> Yn ôl ymchwilwyr, mae yna nifer o effeithiau fesul dyfarniad.

Mae **Graff 1** yn dangos ystod y mathau o effeithiau yr adroddwyd amdanynt ar Researchfish y gellir eu priodoli i ddyfarniadau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Cyhoeddiadau a gweithgareddau ymgysylltu yw'r effeithiau mwyaf cyffredin o bell ffordd yr adroddir amdanynt, ac adroddir yn aml hefyd am gydweithrediadau a chyllid pellach.

Graff 1: Mathau o effeithiau yr adroddwyd amdanynt



>> Mae gweithgareddau lledaenu'n gryf – mae ymchwilydd yn cyhoeddi ac yn ymgysylltu ag eraill ynglŷn â'u hymchwil.

>> Rydym yn annog pob ymchwilydd i ystyried yr ystod lawn o effeithiau a allai godi yn sgil eu hastudiaeth.

Mae'r adrannau isod yn darparu enghreifftiau o effeithiau y mae ein hymchwilydd wedi adrodd amdanynt ar draws yr ystod o fathau o effeithiau.

Gweithgareddau ymgysylltu (adroddwyd am 658)

Mae'r mathau o weithgareddau'n cynnwys:

- Anerchiad neu gyflwyniad (347, gan gynnwys 106 rhyngwladol)
- Cymryd rhan mewn gweithgaredd neu weithdy (157, gan gynnwys 23 rhyngwladol)
- Gweithgor neu banel o arbenigwyr (54, gan gynnwys 6 rhyngwladol)
- Blog neu wefan sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu (35, gan gynnwys 22 rhyngwladol)
- Datganiad i'r wasg neu gynhadledd ar gyfer y wasg (32, 5 rhyngwladol)
- Cylchgrawn, cylchlythyr neu gyhoeddiad ar-lein (20, gan gynnwys 4 rhyngwladol)
- Darllediad teledu, radio, podlediad neu ffilm (13, gan gynnwys 7 rhyngwladol)

Roedd 212 o'r 658 o weithgareddau ymgysylltu'n cynnwys llunwyr polisi. Roedd 237 yn cynnwys ymarferwyr. Roedd 208 yn cynnwys cleifion, gofalwyr a grwpiau cleifion.

Rhestrwyd prif ddeilliannau'r ymgysylltu fel a ganlyn: cynlluniau wedi'u llunio ar gyfer gweithgarwch cysylltiedig yn y dyfodol (152); ceisiadau ynglŷn â chyfranogi pellach (148); newid safbwynt, barn neu ymddygiad pobl (131); ceisiadau am ragor o wybodaeth (101); gwneud penderfyniad neu ddylanwadu ar benderfyniad (25).

Cyhoeddiadau (adroddwyd am 613)


>> Mae data Researchfish yn gallu dweud llawer wrthym am y lleoedd y mae pobl yn cyhoeddi, p'un a yw'r erthyglau yn rhai Mynediad Agored a ph'un a ydynt wedi'u storio yn ystorfa PubMed.

Pan adroddir am gyhoeddiadau, fel rheol mae yna nifer ohonynt - 5 yw'r cyfartaledd, gyda 14 dyfarniad yn cofnodi 10 neu fwy (gan gynnwys 3 ysgoloriaeth ymchwil!)

O'r 613 o gyhoeddiadau, cyfnodolion yw'r mwyafrif (467), ond mae yna hefyd lyfrau a phenodau mewn llyfrau (17); crynodebau mewn trafodion cynadleddau (87), theses (10) a mathau eraill.

Mae erthyglau wedi'u cyhoeddi mewn amrywiaeth eang o gyfnodolion, gan gynnwys y British Medical Journal (BMJ) (20). Mae **Graff 2** yn dangos sut y mae cyfran yr erthyglau sy'n rhai Mynediad Agored wedi cynyddu ers 2012 – tua 70% nawr. (Mae yna anomaledd o ran erthyglau a gyhoeddwyd yn 2020 a 2021 gan fod rhai yn ystod y cyfnod embargo ar fynediad agored).

Graff 2: Nifer yr erthyglau mewn cyfnodolion yn ôl y flwyddyn cyhoeddi a statws mynediad agored



Cydweithrediadau a phartneriaethau (adroddwyd am 190)

Gofynnir i ymchwilwyr gofnodi partneriaethau dwyochrog neu amlochrog o ganlyniad i'r grant, a phryd y mae aelod o'r tîm/ grŵp ymchwil wedi dod i gytundeb i gymryd rhan mewn rhwydwaith, consortiwm, astudiaeth amlganolfan neu fenter arall. Maent yn cofnodi cyfraniadau gan bartneriaid, ac effaith y cydweithrediadau hyn.

Mae'r mwyafrif o fewn y DU (134), ond mae yna hefyd gydweithrediadau â phobl yn UDA (5) Ewrop (19) ac o bellach i ffwrdd (32). Cydweithrediadau academaidd ydynt fel rheol (100) ond mae yna hefyd gydweithrediadau ag elusennau (28), ysbytai (12) a chyrrff cyhoeddus (31).

Cyllid pellach (adroddwyd am 169)

Mae ymchwilwyr yn rhoi gwybod pan mae eu dyfarniad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi'u helpu i sicrhau cyllid pellach. Mae 221 o ddyfarniadau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (sy'n cynrychioli buddsoddiad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o £38.6 miliwn), hyd yma, wedi helpu i sicrhau cyllid pellach sy'n dod i £62.8 miliwn i gyd.

Mae ffynonellau'r cyllid pellach yn cynnwys: Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (£8.5 miliwn), y Cyngor Ymchwil Feddygol (MRC) (£11 miliwn), NIHR (£6.6 miliwn), Ymddiriedolaeth Wellcome (£4.5 miliwn), Sefydliad Wolfson (£10 miliwn) ac elusennau a phrifysgolion.

Dyfarniadau a chydnabyddiaeth (adroddwyd am 98)

- 23 o wobrau ymchwil, gan gynnwys dyfarniadau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru/ Prifysgolion/ Cynadleddau; dyfarniad FameLab UK, dyfarniad Darlith Charles Darwin Cymdeithas Wyddoniaeth Prydain, dyfarniad Ymchwilydd Ifanc.
- 15 o wobrau am boster neu grynodedb
- 22 o wahoddiadau i fod yn brif siaradwyr mewn cynadleddau
- 13 o safleoedd o fri ar gorff allanol, gan gynnwys pwyllgorau a phaneli grantiau a hefyd fel cynghorwyr ac Athro Gwadd
- 13 o benodiadau fel golygydd neu gynghorydd i gyfnodolyn neu gyfres o lyfrau
- 7 o gymrodoriaethau neu aelodaethau anrhydeddus o gymdeithas ddysgedig
- 4 o achosion o ddenu staff sy'n ymweld i'w grŵp ymchwil
- 1 fedal ac 1 MBE (dyfarnwyd MBE i Gareth Collier yn 2018 am ei waith ym maes cancer yr ysgyfaint. Mae'n Brif Ymchwilydd ar gyfer prosiect Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.)

Dylanwadu ar bolisi/ arfer (adroddwyd am 86)

Effeithiau a briodolwyd i ddyfarniadau roedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n eu hariannu, gan gynnwys:

- Cyfeiriadau at ymchwil mewn canllawiau clinigol (3)
- Cyfeiriadau at ymchwil mewn dogfennau polisi neu adolygiad clinigol (10)

- Rhoi tystiolaeth i adolygiad y llywodraeth (8)
- Rhoi cylchlythyr/ cyngor cyflym/ llythyr ar waith i e.e. y Weinyddiaeth Iechyd (4)
- Dylanwadu ar hyfforddiant ymarferwyr neu ymchwilyr (33)
- Bod yn aelod o bwyllgor canllawiau (7)
- Cymryd rhan mewn pwyllgor cynghori (18)

Deunyddiau ymchwil (adroddwyd am 37)

Mae hyn yn cynnwys offerynnau a dulliau ymchwil newydd a ddatblygwyd fel ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae ymchwilyr yn cynnwys gwybodaeth am effaith hyn. Ymhlith yr enghreifftiau o ddeunyddiau ymchwil newydd mae:

- Dull i fesur biofarcwyr serwm gwaed
- Technegau uwch prosesu delweddau
- Gwell protocol imiwnohistogemegol
- Algorithmau ar gyfer cynllunio triniaeth radiotherapi awtomataidd uwch
- Defnyddio cardiau crafu i hap-ddyrannu cyfranogion ar gyfer treialon
- Mesur ansawdd (gwael neu dda) adrodd am hunanladdiad mewn papurau newydd
- Offeryn sgrinio GRiP i arwain gwaith dethol hyfforddwyr un-i-un sy'n gymheiriaid
- Biobrawf ar sail plât 96-ffynnon i fonitro cydgrynoadau platennau
- Plattform model 3D o ganser yr ofari ...

... a mwy

Setiau data, cronfeydd data a modelau ymchwil (adroddwyd am 19)

Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, data 2D a 3D ar gyfer modelu clefyd y galon; genomau bacterol; cronfa ddata genedlaethol atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff; set ddata anhwylderau bwyta yn SAIL; cronfa ddata o samplau cellog/ molecwlaidd/ plasma cleifion; y set ddata Cartrefi Gofal; set ddata Gofal a Thrwsio.

Cyfleusterau (adroddwyd am 15, o 12 o ddyfarniadau)

Mae'r effaith hon yn adlewyrchu pan mae grantiau wedi galluogi ymchwilyr i ddefnyddio cyfleusterau ymchwil ar raddfa fawr, o'r radd flaenaf, yn y DU ac mewn gwledydd eraill. Dyma rai yn sgil dyfarniadau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru:

- Recriwtio cleifion o'r Cohort Risg Genetig ac Amgylcheddol mewn Clefyd Alzheimer
- Recriwtio ar gyfer Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd trwy gefnogaeth Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Cael defnyddio offer, fel dadansoddwr profion imiwnolegol ysgarthol (FIT), peiriant spectrosgopi Raman
- Cael cyrchu data, trwy gysylltu data yn SAIL, ac o'r Ganolfan Ymchwil Genomig
- Gwasanaethau o Labordy Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan, a'r Gwasanaethau Biotechnoleg Canolog
- Storio gwaed yn y Casgliad Ewropeaidd o Ddiwylliannau Celloedd (ECACC)

Cynhyrchion creadigol (adroddwyd am 9, o 6 o ddyfarniadau)

1. Dyfarnodd Cyngor Celfyddydau Cymru grant Ymchwil a Datblygu i arddangosfa a pherfformiad cerddorol 'Cynrychioli'r Meddwl' (o ddau Gymrodoriaeth lechyd cysylltiedig ag ymyriadau ar gyfer iselder yn y glasod, un a ddaeth i ben yn 2018 ac un yn dod i ben yn 2022)
2. 3 chynnyrch creadigol yn ymwneud â 'Cadw'n Ddiogel', gan gynnwys cofnodi gweithdy'r grŵp cynghori yn graffig; cardiau 'Gwiriwch Eich Ffordd o Feddwl' – gyda cheisiadau am 400 o setiau a rannwyd; a phosteri (o grant ymchwil Gofal Cymdeithasol ynglŷn â phobl ifanc y camfanteisir arnyn nhw yn rhywiol, a ddaeth i ben yn 2018)
3. Fideo 'Mind the Gap!' i helpu pobl sy'n cefnogi'r rheini ag anhwylderau bwyta (o grant ymchwil lechyd ynglŷn ag anhwylderau bwyta, a ddaeth i ben yn 2017)
4. Animeiddiad YouTube yn cyflwyno'r 'offeryn hunanwerthuso gwneud y gorau o sgiliau' (o grant Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd (RfPPB) ynglŷn â gwneud y gorau o sgiliau mewn deintyddiaeth, a ddaeth i ben yn 2017)
5. Gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ysgol gynradd i greu celfwaith ar gyfer arddangosfa 'Ymchwil fel Celf' (o ysgoloriaeth ymchwil lechyd ynglŷn â beichiogrwydd, a ddaeth i ben yn 2013)
6. Archif straeon digidol *Praisesongs* (o grant ymchwil Gofal Cymdeithasol a ddaeth i ben yn 2012, ynglŷn ag urddas mewn gofal cymdeithasol)

Cynhyrchion/ ymyriadau meddygol (adroddwyd am 10, o 6 o ddyfarniadau)

1. Offeryn diagnostig: Prawf gwaed Raman-CRC sy'n hynod sensitif/ penodol ar gyfer polypau a chanser y colon a'r rhefr (adroddwyd am hyn ddwywaith, o ddyfarniad RfPPB, a ddaeth i ben yn 2020)
2. Cymhorthyn penderfynu ar gyfer ymarferwyr deintyddol a'u cleifion i annog gwneud penderfyniadau ar y cyd ynglŷn â gosod ysbeidiau adalw deintyddol mewn practisau deintyddol cyffredinol (o grant RfPPB, a ddaeth i ben yn 2020)
3. Offeryn cefnogi penderfynu: Cydsyniad deallus a phenderfynu trwy ddirprwy mewn ymchwil sy'n cynnwys oedolion sy'n methu â chydysynio drostynt eu hunain (o gymrodoriaeth lechyd, a ddaeth i ben yn 2019)
4. Offeryn diagnostig: Defnyddio gwrthgyrff PLCzeta i bennu prognosis ffrwythlondeb sberm, gan gynnwys defnyddio Dinoethi Antigenau (AUM), a chyfateb gwrthgyrff PLCzeta ag iechyd embryogenesis a deilliannau beichiogi (adroddwyd am hyn deirgwaith, o Gymrodoriaeth lechyd, a ddaeth i ben yn 2019).
5. Ymyrraeth lechyd Cyhoeddus: ymyrraeth llesiant ar y we (o ysgoloriaeth ymchwil Gofal Cymdeithasol, a ddaeth i ben yn 2017)
6. Ymyrraeth therapiwtig: Hyfforddiant niwroadborth, ar sail signalau delweddu cyseinedd magnetig sy'n gweithio mewn amser real, ar gyfer cleifion ag iselder (adroddwyd am hyn ddwywaith, o ysgoloriaeth ymchwil lechyd, a ddaeth i ben yn 2014)

Meddalwedd a Chynhyrchion Technoleg (adroddwyd am 7)

1. Datblygu meddalwedd ffynhonnell agored, rhad ac am ddim, gan ddefnyddio deallusrwydd artifisial i greu dull o amserlennu gweithdrefnau llawfeddygol mewn ysbytai – ac yn disodli'r angen i dalu am feddalwedd drwyddedig (o grant ymchwil lechyd, a ddaeth i ben yn 2017) – *yn darparu llond gwlad o wybodaeth y gellid ei defnyddio ar gyfer astudiaeth achos.*
2. Datblygu system awtomataidd i gynhyrchu cynlluniau triniaeth Radiotherapi Arddwysedd Modyledig (IMRT) (o grant RfPPB, a ddaeth i ben yn 2017)
3. Datblygu pecyn seicoaddysg ar-lein ar gyfer iselder yn y glasoed (adroddwyd am hyn ddwywaith o ddwy Gymrodoriaeth lechyd i Dr Bevan-Jones)
4. Datblygu plattform ar-lein ar gyfer ymchwil i hunan-niwed (o ysgoloriaeth ymchwil Gofal Cymdeithasol, a ddaeth i ben yn 2017)
5. Datblygu meddalwedd i astudio sut y mae falfiau'r galon yn gweithio o ran swyddogaeth llif a phwysedd (o ysgoloriaeth ymchwil lechyd, a ddaeth i ben yn 2014)
6. Datblygu cyfres gynhwysfawr o feddalwedd dadansoddi delweddau 3D, y pennwyd gwerth o £48k iddi ac a gyflenwyd i gwmni lleol (o grant ymchwil lechyd, a ddaeth i ben yn 2012)

Eiddo deallusol (adroddwyd am 4 – yn ogystal ag un arall nad yw'n edrych fel eiddo deallusol newydd)

1. Holiadur mesur deilliannau MobQol (o Gymrodoriaeth lechyd CHEME, a ddaeth i ben yn 2020)
2. Gweithlyfr Gweithgareddau Corfforol ENGAGE-HD, a hawlfreiniwyd ac a fydd yn cael ei drwyddedu i'w ddefnyddio mewn amgylcheddau eraill (o Gymrodoriaeth lechyd, a ddaeth i ben yn 2018)
3. Modelau celloedd organoid perfeddol ar gyfer syndromau polyposis tyfiannol, sydd wedi'u trwyddedu o Brifysgol Caerdydd i Cellesce Limited i'w defnyddio wrth ddatblygu cyffuriau (o Gymrodoriaeth lechyd, a ddaeth i ben yn 2017)
4. Hawlfraint ar gyfer dilyniannau a modelau strwythurol o therapiwteg peptid ymgeisiol sy'n targedu'r derbynnydd IL-13 – potensial fel therapiwteg asthma ymgeisiol (o Ysgoloriaeth Ymchwil lechyd, a ddaeth i ben yn 2013).

Rhaglenni deillio (adroddwyd am 2)

CANSENSE Ltd yw un ohonynt, sydd â 4 o gyfarwyddwyr a chydsylfaenwyr. Mae'n datblygu prawf cyflym, rhad y gellid ei ddatblygu'n gyflym ar gyfer gwneud diagnosis cynnar o ganser y colon a'r rhefr gan ddefnyddio prawf seiliedig ar waed. Mae hyn yn adeiladu ar waith a wnaed dan ddyfarniad RfPPB, a ddaeth i ben yn 2020.

PulmonIR Ltd yw'r ail, sef cwmni diagnostig anadlol yn deillio o Brifysgol Abertawe, a chyfrannodd ymchwil o Ysgoloriaeth Ymchwil lechyd (a ddaeth i ben yn 2018) at ei sefydlu. Bu'r ysgoloriaeth ymchwil yn gwerthuso'r defnydd o dechnoleg FTIR ar gleifion clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, gan ddefnyddio samplau clinigol o'r astudiaeth SPEDIC a gynhaliwyd ar y cyd â Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf. Enillodd y cwmni wobwr busnes newydd MediWales yn 2016.


Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd

Ers 2018, rydym wedi gofyn i'r rheini sy'n derbyn dyfarniadau adrodd ar weithgarwch cynnwys cleifion a'r cyhoedd ac, hyd yma, mae 150 ohonynt wedi cwblhau'r adran cynnwys cleifion a'r cyhoedd.

Gofynnir i'r rheini sy'n derbyn dyfarniadau os a sut y maent wedi cynnwys cleifion a/ neu aelodau o'r cyhoedd yn eu hymchwil. Atebodd 116 eu bod (77%), ac atebodd y gweddill nad oedd hyn yn berthnasol (3%) neu nad oeddynt (20%).

Mae **Graff 3** yn dangos bod y gwaith cynnwys cleifion a'r cyhoedd hwn wedi digwydd mewn amrywiaeth o gyfnodau o'r ymchwil – yn amlaf yn y cyfnodau cynharach (datblygu cwestiwn yr ymchwil a'r cais a dylunio'r ymchwil, ond gyda rhai astudiaethau'n ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd trwy gydol y broses. Ar gyfartaledd, roedd astudiaethau'n cynnwys cleifion a'r cyhoedd mewn 3 neu 4 cyfnod gwahanol.

Graff 3: Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd mewn gwahanol gyfnodau o'r broses ymchwil



Mae Researchfish hefyd yn gofyn i'r rheini sy'n derbyn dyfarniadau:

- ddisgrifio'r ffactorau a gyfrannodd at lwyddiant cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn eu hymchwil (fel meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn effeithiol).
- beth oedd heriau cynnwys cleifion a'r cyhoedd. (Er enghraifft, bod natur cyflwr yn gallu effeithio ar y gallu i gael eu cynnwys; mai nifer fach yn unig o bobl briodol sydd y gellir ymgysylltu â nhw; neu ei bod yn heriol sicrhau bod pobl sy'n cyfrannu eu


profiad ymarferol yn derbyn cydnabyddiaeth am eu mewnbwn trwy gyfrwng honorariwm neu dalebau mewn rhai prifysgolion/ sefydliadau)

- pa wahaniaeth y maent yn teimlo y mae cynnwys cleifion a'r cyhoedd wedi'i wneud i'w hymchwil.

Dywedodd 117 o ymchwilyr wrthym am y **ffactorau llwyddiant** ar gyfer cynnwys cleifion a'r cyhoedd yn eu prosiect – gwelwch **Graff 4**.

>> **Teimlwyd mai meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn effeithiol oedd y ffactor llwyddiant pwysicaf ar gyfer cynnwys cleifion a'r cyhoedd.**

Graff 4: Ffactorau llwyddiant yr adroddwyd amdanynt ar gyfer cynnwys cleifion a'r cyhoedd



Prin iawn oedd yr ymchwilyr (dim ond 15 o 150) adroddodd eu bod wedi ei chael yn heriol cynnwys pobl.

- Soniodd 11 am broblemau oherwydd y pandemig COVID-19
- Soniodd 2 am anhawster gwobrwyo/ ad-dalu pobl a oedd wedi cymryd rhan yn iawn, a soniodd 2 arall am sefyllfa sy'n golygu bod pryderon y gallai ad-daliadau effeithio ar eu budd-daliadau yn eu troi oddi ar gymryd rhan
- Soniodd 2 am anawsterau cynnwys cleifion a'r cyhoedd oherwydd pwysau amser y prosiect ymchwil.

Adroddwyd am lawer o wahanol effeithiau cynnwys cleifion a'r cyhoedd ar y prosiect ymchwil, gan gynnwys, er enghraifft:

- Gwneud yn siŵr bod yr ymchwil yn ateb y cwestiynau iawn, fel ei bod yn berthnasol ac yn benodol a'i bod yn bwysig i gleifion/ defnyddwyr gwasanaeth
- Cadw canolbwynt ar y claf yn ystod prosiect technegol

- Teilwra technoleg fel ei bod yn diwallu anghenion cleifion
- Datblygu ymyrraeth newydd nad oedd y tîm ymchwil wedi'i rhagweld
- Mireinio ymyrraeth, gan wneud yn siŵr ei bod yn addas i'w rhoi ar waith
- Deall pa fesurau deilliannau sy'n ystyrlon i deuluoedd yr effeithir arnynt
- Deall profiad o lwybr diagnosis fel y gellid datblygu un gwell
- Dylunio dulliau casglu data fel bod llai o bobl yn optio allan
- Helpu i wneud casgliadau'n fwy credadwy
- Helpu i ddeall a dehongli darganfyddiadau
- Helpu i ledaenu'r ymchwil